CYNLLUN STRATEGOL
2003/2006

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

RHAGAIR Y **PRIF GWNSTABL**

Yn fy ail flwyddyn fel Prif Gwnstabl yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rwy'n benderfynol o adeiladu ar ddyheadau a chyraeddiadau'r Heddlu yn y gorffennol ac i wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei roddi.

Mae'r Cynllun Strategol yn amlinellu fy nodau a'm dyheadau ar gyfer yr Heddlu dros y tair blynedd nesaf, i ddarparu'r "llun mawr" o'r hyn y gall yr Heddlu ei gyflawni, ynghyd â'n gwerthoedd sylfaenol. Mae'r ddogfen hon yn rhoddi gwybodaeth ddiweddar yngl?n â Chynllun Strategol y llynedd er mwyn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd eisoes gan yr Heddlu a'r datblygiadau yn y gwasanaeth heddlu a'r diwydiant rheilffyrdd, megis Cynllun Cenedlaethol yr Heddlu a Chynllun Diogelwch y Gr?p Rheilffyrdd.

Fy ngweledigaeth yw darparu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y bwriada'r Heddlu ei wneud a'r hyn yr ydym yn sefyll drosto, fel y gall staff a phartneriaid yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r amcanion yr ydym yn rannu. Adlewyrchiad yw'r cynllun hwn o'r ymgynghori eang sydd wedi digwydd yn yr Heddlu a thu allan i'r Heddlu gyda'n cymuned reilffyrdd.

Mae fy ngweledigaeth ar gyfer yr Heddlu yn un uchelgeisiol a heriol, ac yn un y credaf y gellir ei gwireddu trwy arweinyddiaeth gref a chefnogaeth yr holl staff a'n partneriaid yn y gymuned reilffyrdd.

Ian Johnston CBE QPM
Prif Gwnstabl

CADEIRYDD PWYLLGOR YR HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Mae'r ddogfen hon, sydd wedi ei chynhyrchu gan y Prif Gwnstabl a'i dîm, yn rhoi cyfeiriad clir i'r Heddlu. Mae'n gosod y pwyslais priodol ar gwrdd â disgwyliadau teithwyr, a disgwyliadau eraill y gymuned reilffyrdd, ac ar ddarparu gwerth am arian. Mae Pwyllgor yr Heddlu yn rhoi eu cefnogaeth yn llawn iddi.

James Jerram CBE
Cadeirydd Pwyllgor yr Heddlu

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

DATGANIAD GWELEDIGAETH

EIN NOD YW:

Darparu gwasanaeth plismona sy'n creu amgylchedd diogel ar y rheilffyrdd, heb darfiadau ac ofn troseddau.

Fe gyflawnwn hyn drwy:

- Fod yn ymrwymedig i anghenion arbenigol y gymuned reilffyrdd;
- Hyrwyddo diwylliant o gyflawniad, sy'n cyflawni canlyniadau o'r safon uchaf a gonestrwydd;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda phawb yn ein cymuned;
- Gweithio ar sail gwybodaeth;
- Darparu gwerth am arian.

Ein gwerthoedd arweiniol yw:

- Croesawu amrywiaeth;
- Gwrando ar ein cymuned reilffyrdd, ac ymateb i'w hanghenion;
- Gweithredu'n broffesiynol;
- Bod yn agored, yn onest ac yn deg.

SUT Y MAE'R DDOGFEN HON YN FFURFIO RHAN **O'N FFRAMWAITH CYNLLUNIO STRATEGOL**

Pwrpas ein Cynllun Strategol yw darparu gweledigaeth tymor canolig o'r hyn y mae'r Heddlu, yn ei gyfanrwydd, yn anelu tuag at ei gyflawni. Mae'n amlinellu, ar lefel uchel, sut y byddwn yn cyflawni'r weledigaeth dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r Cynllun Strategol 2003-6 yn cyflwyno diweddariad o Gynllun 2002-5 a gychwynnwyd gan y Prif Gwnstabl y llynedd. Eisoes cyflawnwyd nifer o amcanion y Cynllun hwnnw ac yn eu lle mae nifer o weithrediadau newydd sy'n cymryd i ystyriaeth y newid a gafwyd yn y gwasanaeth heddlu a'r diwydiant rheilffyrdd, Cynllun Cenedlaethol yr Heddlu a Chynllun Diogelwch y Gr?p Rheilffyrdd.

Strategaethau Adrannol yw'r peiriannau a fydd yn gweithredu ein Cynllun Strategol, yn ogystal â phennu dyheadau ehangach yr Adrannau o fewn y fframwaith hwn.

Pwyllgor yr Heddlu sy'n pennu'r Cynllun Cyflawniad Gwerth Gorau a Phlismona blynyddol (ei enw mwy cyffredin yw Cynllun Plismona'r Heddlu), sy'n bwriadu defnyddio ein Cynllun Strategol fel cefnlen ar gyfer y Cynllun hwnnw.

Cynlluniau Plismona Ardal Blynyddol fydd y prif fodd o gyflawni Cynllun Plismona'r Heddlu, a chynorthwyo i sicrhau cydbwysedd rhwng ein nodau corfforaethol ac anghenion lleol.

Y cynlluniau hyn yw'r briciau adeiladu a ddefnyddiwn i adeiladu'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Heddlu. Dyma ddiagram i ddangos hyn:

LLUN 1: Y BLOCIAU ADEILADU STRATEGOL

SUT Y BYDDWN YN **CYFLAWNI EIN NODAU**

NOD 1: DARPARU GWASANAETH PLISMONA SY'N YMRWYMEDIG I ANGHENION ARBENIGOL Y GYMUNED REILFFYRDD DRWY:

GWEITHREDOEDD*	**2003/2004**	**2004/2005**	**2005/2006**
1.1 Sicrhau bod cynlluniau a mentrau gweithredol yn canolbwyntio ar anghenion arbenigol y rheilffyrdd; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Adolygu a gwella safon ymateb yr Heddlu i Ddigwyddiadau Mawrion, e.e. damweiniau rheilffordd, marwolaethau, mewn cydweithrediad gyda'n partneriaid. Y prif dasgau yw ail-ysgrifennu llawlyfr Digwyddiadau Mawrion, adolygiad llawn o hyfforddiant a pharodrwydd yr Heddlu ac archwiliad cynllun wrth gefn;	•		
Datblygu a chydlynu'n effeithiol y trefniadau cydgymorth yn yr Heddlu.	•	•	
1.2 Datblygu a chydlynu ymateb yr Heddlu i derfysgaeth yn erbyn y rheilffyrdd, er mwyn sicrhau diogelwch eithaf y teithwyr a staff, a lleihau'r tarfiadau ar y gwasanaethau rheilffyrdd i'r eithaf; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Datblygu a chydlynu opsiynau mewn perthynas ag ymladd terfysgaeth yn erbyn y rheilffyrdd, mewn partneriaeth gyda'r diwydiant rheilffyrdd, heddluoedd ac asiantaethau eraill;	•	•	•
Llunio a Dosbarthu asesiadau gwrth derfysgaeth ar gyfer yr Heddlu mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Diogelwch a Changen Gwrth-Derfysgaeth Heddlu'r Metropolitan.	•	•	•

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

1.3 Darparu modd effeithiol o gyfathrebu ar gyfer y staff yn ein perthynas genedlaethol unigryw gydag heddluoedd a gwasanaethau brys eraill;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Materion Cymunedol)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gweithredu system 'Airwave' yr Heddlu, sef system gyfathrebu genedlaethol yr heddlu.	•	•	

1.4 Gwella rheolaeth eiddo er mwy sicrhau fod adnoddau effeithiol ar gael mewn lleoliadau sy'n berthnasol i'n gwaith, ac sy'n hawdd i'n cymuned reilffyrdd gael mynediad atynt;
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Cwblhau archwiliad o eiddo presennol HTP er mwyn cynhyrchu cofrestr eiddo yr Heddlu;	•		
Cynhyrchu cynllun cynnal ac adnewyddu i'r Heddlu.	•		

NOD 2: HYRWYDDO DIWYLLIANT O GYFLAWNIAD, SY'N CYFLAWNI CANLYNIADAU O'R SAFON UCHAF A GONESTRWYDD DRWY:

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

2.1 Cywreinio'r fframwaith rheoli cyflawniad, er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targedau gweithredol;
Cyfrifoldeb arweiniol: Dirprwy Brif Gwnstabl

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Cywreinio'r adolygiadau monitro cyflawniad a wneir yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Heddlu;	•	•	•
Datblygu a gweithredu costio seiliedig ar weithrediad o weithgaredd yr Heddlu, gan ddefnyddio data dadansoddi gweithredoedd a dilyn cyn belled ag y bo modd fframwaith PPAF y Llywodraeth;	•		
Gweithredu argymhellion Tasglu Gwrth-Fiwrocratiaeth y Llywodraeth.	•	•	•

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

2.2 Adolygu pob maes gweithgaredd dros y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein cymuned reilffyrdd, mewn modd effeithlon ac effeithiol;
Cyfrifoldeb arweiniol: Dirprwy Brif Gwnstabl

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Cynnal rhaglen Gwerth Gorau gorfforaethol dros gyfnod o bedair blynedd, a gweithredu'r argymhellion, gan ddibynnu ar y gyllideb;	•	•	•
Cynnal adolygiadau Gwerth Gorau o arweinyddiaeth a chynllunio strategol, heddlu cudd, lleihau tarfu ar wasanaethau rheilffyrdd, rheoli gofod cyhoeddus a phlismona cymunedol.	•		

2.3 Gwneud y defnydd gorau o adnoddau drwy sefydlu system gadarn i reoli cyllid, gyda chyfrifoldebau clir;
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gwella cynnwys ac amseriad monitro cyllidebol gan gynnwys mwy o ddefnydd o wybodaeth adnoddau a chymarebau perfformiad allweddol;	•		
Gweithredu proses arferol o adolygiadau cyllidol ar bob lefel yn yr Heddlu;	•		
Adolygu'r broses gwerthuso cyfalaf;	•		
Diweddaru'r Strategaeth Gyllidol Barhaus 3-blynedd cyn y gyllideb bob blwyddyn.	•	•	•

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006
2.4 Cynorthwyo i reoli cyflawniad drwy ddefnyddio technoleg sydd wedi ei integreiddio, ac sy'n darparu gwybodaeth amserol, gywir i amcanion gweithredol; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Materion Cymunedol)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Gweithredu System Gorchymyn a Rheoli'r NSPIS (Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Systemau Gwybodaeth Heddluoedd) er mwyn gallu dyrannu adnoddau yn well;	•		
Gweithredu NMIS (System Gwybodaeth Rheoli'r NSPIS) er mwyn gallu monitro cyflawniad yn well;	•	•	
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol			
Gweithredu System Adnoddau Dynol NSPIS.		•	
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)			
Gweithredu systemau Paratoi Achosion a Gwarchodaeth er mwyn rhannu data gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol.		•	
2.5 Sicrhau fod yr Heddlu yn gallu cael y wybodaeth gywir, yn y ffurf gywir, ar yr adeg gywir ac am gost briodol i alluogi gwneud penderfyniadau gweithredol gwell. **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Materion Cymunedol)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Datblygu Strategaeth Gwybodaeth yr Heddlu	•		
2.6 Rheoli absenoldebau yn effeithiol er mwyn sicrhau fod unrhyw darfu ar wasanaeth cyn lleied â phosib; **Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Cynnal adolygiad a diweddaru'r polisi absenoldeb oherwydd gwaeledd;	•		
Cyflwyno rhaglen o hyfforddiant i reolwyr newydd mewn absenoldeb oherwydd gwaeledd		•	

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

2.7 Gweithredu dulliau newydd o baratoi a rheoli achosion yn unol â strategaeth cyfiawnder troseddol deng-mlynedd y Llywodraeth;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Lleihau i'r eithaf y raddfa athreuliad am droseddau a gofnodir yn unol â strategaeth y Llywodraeth;	•	•	•
Gwerthuso y potensial o ymestyn y cynllun peilot Rhybudd Cosb yr Heddlu ar draws gwaith yr Heddlu'n gyfangwbl	•	•	

2.8 Datblygu polisi a dulliau gweithredu ar gyfer troseddwyr parhaus;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gwella cydlynu a chyswllt gyda Thimau Troseddu'r Ifanc, gan dalu sylw arbennig i droseddwyr ifanc parhaus;	•		
Codi ymwybyddiaeth o strategaethau a thargedau troseddwyr parhaus ymhlith swyddogion yr heddlu a staff uned gweinyddu cyfiawnder trwy briffio a chyhoeddusrwydd.	•		

NOD 3: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA PHAWB YN EIN CYMUNED DRWY:

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

3.1 Datblygu partneriaethau a chynlluniau gyda'r diwydiant rheilffyrdd, ac asiantaethau eraill, er mwyn gostwng ac atal troseddu a'r ofn troseddau;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Hybu achrediad mewn cynlluniau Gorsafoedd Diogel a Meysydd Parcio Diogel o fewn y diwydiant rheilffyrdd.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

3.2 Datblygu partneriaethau a chynlluniau gyda'r diwydiant rheilffyrdd i ddatrys trosedd ar y daith, a tharfiadau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau chwaraeon;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gweithredu strategaeth yr Heddlu i gynorthwyo'r diwydiant i ymladd trosedd ar y daith;	•	•	•
Sefydlu, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Rheilffyrdd, Uned Genedlaethol Partneriaeth Troseddu ar Deithiau;	•		
Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a gweithredu dull cost-effeithlon, cydlynedig ac sy'n seiliedig ar wybodaeth, o ymdrin â rheoli anhrefn ar y rheilffyrdd, sy'n gysylltiedig â digwyddiadau pêl-droed a chwaraeon eraill, drwy drefnu gweithgareddau'r HTP ar lefel uchel ac isel, gyda'r diwydiant rheilffyrdd;	•		
Gweithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd i gwrdd ag amcanion Cynllun Diogelwch Grwpiau y Rheilffyrdd Cenedlaethol, a gweithredu mentrau i leihau tresmasu gan blant ar eiddo a thir y rheilffyrdd.	•		

3.3 Hyrwyddo a monitro cynhwysiad effeithiol mewn partneriaethau trosedd ac anhrefn, a diogelwch cymunedol, ar lefel leol, er mwyn gostwng troseddau a'r ofn troseddau;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Materion Cymunedol)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gweithredu modd mwy effeithiol o gyfathrebu gyda phartneriaid allweddol, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Trosedd Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol a heddluoedd eraill;	•		
Gwella rheolaeth cysylltiadau cwsmeriaid a chorfforaethol trwy gryfhau prosesau cydlynu ffurfiol;	•		
Gwerthuso a gwella trefniadau partneriaeth, gan ddefnyddio'r gronfa ddata partneriaethau trosedd ac anhrefn, a diogelwch cymunedol.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

3.4 Annog cyfnewid gwybodaeth gyda'n partneriaid busnes, gan gynnwys atborth sy'n ymwneud yn benodol â busnesau rheilffyrdd;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Materion Cymunedol)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gwella'r llif gwybodaeth dwyffordd rhwng yr Heddlu a'r diwydiant rheilffyrdd;	•	•	
Sicrhau fod y Pwyllgorau Teithwyr Rheilffyrdd yn derbyn gwybodaeth ynghylch tueddiadau troseddol a chynlluniau i ddatrys trosedd ar y rheilffyrdd.	•	•	•

3.5 Ymestyn a gwella'r gwasanaeth gweithredol trwy ddefnyddio opsiynau plismona ategol;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Canfod y buddiannau sydd wedi deillio o'r arbrawf 'Cynllun Plismona Cyflenwol' gyda staff diogelwch y Cwmnïau Trenau, gyda'r bwriad o ehangu trefniadau o'r math yma;	•		
Cael y budd mwyaf allan o Gwnstabliaid Gwirfoddol sydd wedi eu noddi, drwy gynllun arbrofol gyda Connex, a thrwy hyrwyddo'r cynllun gydag eraill yn y diwydiant;	•	•	•
Gweithredu'r cynllun achredu rheilffyrdd fel y'icyflwynwyd dan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.	•		

3.6 Codi proffil yr Heddlu;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Materion Cymunedol)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Datblygu cynlluniau marchnata i gynyddu amlygrwydd ac enw da'r Heddlu oddi mewn i'r diwydiant rheilffyrdd, gyda'r cyhoedd sy'n teithio a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

NOD 4: GWEITHIO AR SAIL GWYBODAETH DRWY:

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006
4.1 Hyrwyddo dull o weithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth yn ein holl weithgareddau gweithredol, drwy weithredu'r Model Gwybodaeth Cenedlaethol; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Gweithredu'r Model Gwybodaeth Cenedlaethol ar gyfer yr Heddlu, a sicrhau bod gwybodaeth wrth graidd ein gweithgareddau gweithredol;	•		
Hyrwyddo a chefnogi Athrawiaeth Ymchwiliol, sy'n gwella'r modd y rheolir ymchwiliadau ac sy'n cynyddu cliriadau troseddol;	•		
Ymateb yn hyblyg i 'ganolbwyntiau trosedd' a chydlynu'n agos ein gwasanaeth i'r gofynion a osodir arni gan wybodaeth arbenigol ar lefelau strategol a thactegol;	•	•	•
Sicrhau fod cynrychiolwyr o'r diwydiant rheilffyrdd yn cyfranogi mewn cyfarfodydd a Gr?p Strategol Tasgau a Chydlynu yr Heddlu sy'n pennu blaenoriaethau gweithredu a bod ymgynghori llawn yn digwydd gyda chynrychiolwyr teithwyr;	•		
Adolygu'r strwythur gwybodaeth mewn tair ardal yn Llundain er mwyn gwella plismona sy'n seiliedig ar wybodaeth..	•	•	
4.2 Gwella'r modd y rheolir lleoliadau troseddau, yn arbennig y defnydd o DNA i ganfod troseddwyr; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Cynhyrchu protocol cymorth gwyddonol a llawlyfr safonol ar drefnau.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

4.3 Cyflwyno systemau gwybodaeth i gefnogi plismona sy'n seiliedig ar wybodaeth;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Datblygu ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth sy'n arwain at fwy o berchnogaeth a datrys problemau ar y cyd;	•	•
Gwella ymhellach y System Gwybodaeth Integredig er mwyn darparu cysylltiadau electronig â heddluoedd ac asiantaethau eraill;	•	
Datblygu systemau sy'n galluogi cyfnewid gwybodaeth mewn modd mwy effeithiol rhwng yr Heddlu a'r diwydiant rheilffyrdd;	•	•
Integreiddio ein systemau er mwyn gwella'r llif gwybodaeth gyda'n partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol.		•

NOD 5: DARPARU GWERTH AM ARIAN DRWY:

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

5.1 Moderneiddio strwythurau'r Heddlu er mwyn codi effeithiolrwydd y prosesau a'r dulliau o ddarparu adnoddau;
Cyfrifoldeb arweiniol: Dirprwy Brif Gwnstabl

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Datblygu dull Corfforaethol o blismona er mwyn gwella'r gwasanaeth;	•	•
Gostwng nifer Ardaloedd yr Heddlu i sicrhau manteision a ddaw yn sgil gweithio ar sail ardaloedd mwy;	•	•
Taro ar y cydbwysedd priodol o sgiliau trwy sicrhau pob cyfle bosib i sifilianeiddio swyddogaethau cefnogi gweithredol;	•	
Symud Pencadlys yr Heddlu.	•	•

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006
5.2 Creu pob cyfle bosib i ganfod ffynonellau ariannu eraill;			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth			
Sefydlu cofrestr o'r holl geisiadau am arian, a'r llwyddiannau;	•		
Rhannu arferion da yng nghyfarfodydd misol Tîm Rheoli'r Heddlu yng nghyswllt taro ar ffynonellau eraill o gyllid	•		
Cyfrifoldeb arweiniol: Dirprwy Brif Gwnstabl (Yr Alban a Materion Cymunedol)			
Lobïo'r Llywodraeth a ffynonellau eraill o gyllid.	•	•	•
5.3 Datganoli Lefelau o gyfrifoldebau, lleihau biwrocratiaeth a gwella effeithiolrwydd y maes Cyllid; **Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Datblygu, cynnal ac adolygu polisïau a gweithdrefnau prynu a sicrhau gwerth am arian yn yr holl faes prynu;	•		
Adolygu a sicrhau bod y lefelau awdurdod i'r Prif Swyddogion ac i'r rheolwyr llinell perthnasol yn briodol i'r strwythur rheoli datganoledig;	•		
Gwella a blaenllymu Adran Gyllid Pencadlys yr Heddlu;	•		
Ystyried cyflwyno swyddogaeth gyllidol integredig yn Llundain;	•	•	
Asesu'r potensial ar gyfer cyflwyno systemau technoleg newydd yng nghyswllt cyflogau a chyllid.	•	•	
5.4 Gwella effeithiolrwydd ym maes busnes adnoddau dynol; **Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Gwella a mireinio adnoddau dynol trwy foderneiddio prosesau a thrwy ganoli, lle bo hynny'n briodol;	•		
Cynnig ffwythiant adnoddau dynol integredig o fewn Llundain.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

5.5 Gwella effeithiolrwydd prosesau a dulliau darparu adnoddau yng nghyswllt trin galwadau, gorchmynion a rheoli ac adrodd ar droseddau;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban & Materion Cymunedol)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gweithredu ar gynlluniau gwella busnes yng nghyswllt trin galwadau, gorchmynion a chofnodi troseddau.	•	•	

5.6 Rheoli newid y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes trwy reoli prosiectau'n effeithiol;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Mireinio gwaith y Bwrdd Rhaglenni i fonitro a phennu adnoddau ar gyfer prosiectau mawrion;	•		
Gweithredu methodoleg rheoli prosiectau corfforaethol ar bob prosiect ar draws yr Heddlu.	•		

5.7 Blaenoriaethu a rheoli hyfforddiant er mwyn sicrhau fod hyfforddiant yn canolbwyntio ar ein anghenion arbenigol, yn gost effeithiol ac yn ddefnydd effeithlon o adnoddau;
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Cwblhau dadansoddiad o anghenion yr Heddlu am hyfforddiant a sgiliau;	•		
Cymryd cyfleon i hyfforddi ar y cyd gyda'n partneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd.	•		

5.8 Gwella ansawdd ein adnoddau;
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Sicrhau fod staff gyda'r adnoddau priodol i wneud y gwaith;	•		
Cyflwyno technolegau newydd i wella'r f rwydr yn erbyn trosedd.	•	•	•

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

NOD 6: HYBU AMRYWIAETH DRWY:

GWEITHREDIADAU*	**2003/2004**	**2004/2005**	**2005/2006**
6.1 Sicrhau fod amrywiaeth wrth wraidd y cwbl a wnawn, yn fewnol ac yn allanol; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Yr Alban a Mentrau Cymunedol)**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Datblygu a gweithredu Strategaeth Amrywiaeth ar gyfer yr Heddlu;	•	•	•
Rhoi hyfforddiant amrywiaeth i'r holl staff;	•	•	
Gweithredu a monitro Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yr Heddlu;	•	•	
Gweithredu cynllun gweithredol Rhaglen Gender Gwasanaeth yr Heddlu;	•	•	
Ymgynghori gydag arbenigwyr lleyg pan yn datblygu materion amrywiaeth.	•		
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol			
Gweithredu gwelliannau mewn recriwtio a chadw Staff a'u cynnydd o fewn yr Heddlu er mwyn gwella tangynrychiolaeth grwpiau ethnig;	•	•	
Gweithredu yn ôl gofynion y Ddeddf Rhagfarnu ar sail Anabledd.	•	•	

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

NOD 7: GWRANDO AR EIN CYMUNED REILFFYRDD AC YMATEB I'W HANGHENION DRWY:

GWEITHREDIADAU*	**2003/2004**	**2004/2005**	**2005/2006**

7.1 Targedu heddlu mewn lifrai ar batrôl, mewn modd a fydd yn atal troseddu a thaclo anhrefn, er mwyn lleddfu pryderon y gymuned reilffyrdd;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Sicrhau bod y gwaith patrolio yn seiliedig ar wybodaeth amserol a chywir;	•	•	
Chwilio am ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaeth heddlu sy'n ymateb i anghenion y gymuned reilffyrdd mewn ardaloedd gwledig.	•	•	

7.2 Parhau i hybu ymateb i drosedd sy'n canolbwyntio ar y dioddefydd, yn enwedig trosedd yn ymwneud â hil/casineb, a gweithio agos gyda Cymorth i Ddioddefwyr;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Gweithredu argymhellion Adroddiad Macpherson ar drosedd casineb a chynnal dioddefwyr;	•	•	
Adolygu polisïau a threfnau yng nghyswllt gofal dioddefwyr a thystion, yn enwedig trefnau atgyfeirio dioddefwyr;	•		
Monitro gweithrediad menter datganiad personol y dioddefwr.	•		

7.3 Gwella'r ddarpariaeth cyngor atal troseddu arbenigol sydd ar gael ar gyfer ein cymuned reilffyrdd;
Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Trosedd)

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Cynorthwyo Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd mewn ymchwil a chyhoeddi Safon Gr?p Rheilffyrdd ar Deledu Cylch Caeedig;	•		
Cynhyrchu llawlyfr Atal Trosedd trwy Gynllunio Environmental Design (CPTED) manual for use Amgylcheddol (CPTED) at ddefnydd y diwydiant rheilffyrdd er mwyn cynllunio i ddileu trosedd oddi mewn i'r amgylchedd rheilffyrdd;	•		
Cynorthwyo Prif Orsafoedd Rhwydwaith Rheilffyrdd i gynllunio i uwchraddio eu systemau Teledu Cylch Caeedig yn Llundain.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

NOD 8: GWEITHREDU'N BROFFESIYNOL DRWY:

GWEITHREDIADAU*	**2003/2004**	**2004/2005**	**2005/2006**
8.1 Cyd-drafod rheoliadau ac amodau gwasanaeth a fydd yn ein galluogi i ymateb mewn modd effeithlon a hyblyg i'r gofynion sydd arnom mewn perthynas â phlismona; **Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Mewn ymgynghoriad gyda Chymdeithasau Staff, adolygu amodau gwasanaeth yr heddlu a staff sifil, gan gynnwys taliadau diswyddo ac ailsefydlu;	•		
Gweithredu'r newidiadau adnoddau dynol a gynhwysir yn rhaglen y llywodraeth ar gyfer Diwygio'r Heddlu.	•	•	
8.2 Sicrhau bod y strwythur rheolaeth ariannol yn cydymffurfio gyda'r awdurdodau statudol, a'i fod yn ymateb i anghenion y gymuned reilffyrdd a'r cyflenwyr fel ei gilydd; **Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Canoli sylw ar arferion a rheolyddion cyfrifyddu er mwyn sicrhau'r arfer cyfrifyddu gorau a chynnal amgylchedd gref o reolaeth;	•		
8.3 Datblygu a gweithredu trefnau rheoli risg a llywodraeth gorfforaethol; **Cyfrifoldeb arweiniol: Prif Gwnstabl Cynorthwyol**			
Cyflwyno trefn rheoli risg sy'n ystyried Adroddiad Turnbull (Rheolau Llywodraeth Gorfforaethol);	•		
Cyflwyno trefn archwilio mewnol lawn.	•		
8.4 Cryfhau arweinyddiaeth trwy raglenni dethol a datblygu staff. **Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**			
Bydd tasgau penodol yn cynnwys:			
Cyflwyno llwybr datblygu ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno gwella;	•	•	
Creu a gweithredu cynllun i hyfforddi rheolwyr;	•	•	
Cyflwyno cynlluniau mentora mewn partneriaeth â chyrff eraill e.e. 'London First';	•		
Gweithredu fframwaith medrau cenedlaethol y Gwasanaeth Heddlu a chysylltu hyn gydag anghenion hyfforddiant a datblygiad staff.	•		

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

NOD 9: BOD YN AGORED, YN ONEST AC YN DEG DRWY:

GWEITHREDIADAU*	2003/2004	2004/2005	2005/2006

9.1 Gwerthfawrogi staff drwy faethu diwylliant lle nad oes gwahaniaethu nac aflonyddwch, lle mae'r heddlu a'r staff cefnogol yn cael eu trin yn deg a chyda pharch;
Cyfrifoldeb arweiniol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Defnyddio'r broses Adolygu Cyflawniad a Datblygiad (ACD) er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu gwerthuso mewn dull agored a chyfranogol;	•		
Adolygu, gweithredu a monitro polisi'r Heddlu ar fwlio ac aflonyddwch.	•		

9.2 Dilyn arferion moesegol a gonest bob amser, gyda rheolaeth ymwthgar, ond teg, yn sail iddynt;
Cyfrifoldeb arweiniol: Dirprwy Brif Gwnstabl

Bydd tasgau penodol yn cynnwys:

Creu Adran Safonau Proffesiynol;[1]			•
Cyflwyno polisïau a threfnau sy'n annog staff i adrodd yn ôl ynghylch unrhyw dorri safonau proffesiynol neu onestrwydd;	•		
Gweithredu yn ôl yr angen er mwyn ymlynu at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a pholisi gwybodaeth diogelwch ACPO.	•		•

[1] Bwriadwyd creu Adran Safonau Proffesiynol yn 2003/04 ond bu raid gohirio hyn tan 2004/05 oherwydd cyllideb annigonol.

* Mae'r pwyntiau bwled yn y tabl hwn yn dangos pa bryd y byddwn yn gwneud ymdrech fawr mewn perthynas â phob tasg, er y bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

Mae'r Prif Gwnstabl yn croesawu atborth ar Gynllun Strategol 2003-2006, ac ar unrhyw faterion a godir ynddo. Os hoffech gynnig sylwadau, ysgrifennwch at:

Ian Johnston CBE QPM
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
15 Tavistock Place
Llundain WC1H 9SY
Neu anfonwch neges e-bost at:
ian.johnston@btp.pnn.police.uk

Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yw'r gwasanaeth heddlu arbenigol ar gyfer rheilffyrdd Prydain, sy'n cynnwys y Rheilffyrdd Cenedlaethol, Rheilffordd Danddaearol Llundain, Rheilffordd Ysgafn y Dociau a nifer gynyddol o systemau tram.

Amcan yr Heddlu yw darparu gwasanaeth plismona sy'n sicrhau amgylchedd rheilffyrdd diogel, sy'n rhydd oddi wrth darfiadau ac ofni trosedd.

Os hoffech wybod mwy am yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gallwch ymweld â'n gwefan: www.btp.police.uk , neu ysgrifennwch at:

Cysylltiadau Cyfryngol a Chwsmeriaid
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
15 Tavistock Place, Llundain WC1H 9SY

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 15 Tavistock Place Llundain WC1H 9SY

I GYSYLLTU GYDA'R
HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG
FFONIWCH RHADFFON 0800 40 50 40
MEWN ARGYFWNG, FFONIWCH 999